

# Plaid Cymru Y Felinheli

**Mai 2013**

## **Cangen yn cefnogi ymgeisyddiaeth Siân Gwenllian**

Mae Cangen Plaid Cymru Y Felinheli wedi pleidleisio'n unfrydol dros gefnogi enwebiad y Cynghorydd Siân Gwenllian fel ymgeisydd ar gyfer Sedd Arfon yn Etholiadau Senedd Cymru yn 2016.

Mae bwlch wedi codi gan fod yr aelod presennol, Alun Ffred Jones wedi cyhoeddi ei ymddeoliad yn 2016, ac fe fydd aelodau Plaid Cymru Arfon yn dewis darpar olynnydd dros yr wythnosau nesaf.

Dywedodd Cadeirydd Cangen Plaid Cymru Y Felinheli, Margaret Tuzuner, bod holl aelodau'r gangen yn hynod o falch o allu cefnogi'r Cynghorydd Siân Gwenllian wrth iddi gyflwyno ei henwebiad ar gyfer sedd Arfon yn 2016.

“Bydd bwlch mawr ar ôl Alun Ffred, yn Arfon ac yng Nghymru ond rwy'n ffyddiog fod gennym ddarpar ymgeisydd da iawn.

“Mae Siân wedi gwneud gwaith gwych fel cynghorydd sir dros Y Felinheli ers 2008 ac mi rydan ni fel cangen yn ei chefnogi hi 100% ac yn awyddus iawn i wneud popeth i'w helpu hi wrth iddi geisio cael ei dewis fel ymgeisydd Plaid Cymru yn Arfon yn 2016,” meddai.

“Mae'r gallu a'r holl gymwysterau ganddi ar gyfer gwneud y gwaith pwysig hwn.”

Dywedodd ysgrifennydd y gangen, Aled G Job ei fod yn teimlo y gallai'r Cynghorydd Siân Gwenllian ymestyn apêl Plaid Cymru eto fyth yn yr ardal, a thynnu mwy o bobl newydd i mewn i'r rhengoedd.

“Mae arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood yn rhoi pwyslais mawr ar dynnu mwy o bobl newydd i fewn i'r mudiad cenedlaethol, a dwi'n teimlo y gall Siân hithau lwyddo i wneud hynny dros Blaid Cymru yn Arfon,” meddai.

“Gyda'r posibilrwydd o'r Alban yn pleidleisio dros annibyniaeth y flwyddyn nesaf, mae'n bwysicach nag erioed bod neges Plaid Cymru am fwy o ryddid i Gymru yn cael ei chlywed yn amlach ac yn gryfach. Gyda'r profiad sydd gan Siân a'r sgiliau pobl arbennig sydd ganddi, byddai ei dewis hi fel Aelod dros Arfon yn siŵr o helpu'r gwaith hwnnw yn ei flaen.”

Meddai Siân Gwenllian: “Hoffwn ddiolch i aelodau'r Blaid yn Y Felinheli a phobol y pentref yn gyffredinol am fod mor gefnogol i mi wrth i mi sôn wrthyn nhw fy mod yn meddwl rhoi fy enw mlaen i fod yn ymgeisydd y Blaid yn Arfon. Mae eu geiriau caredig wedi fy nghyffwrdd ac mae nhw yn sbardun i mi ymroi yn egniol i'r gwaith sydd angen ei wneud.

“Mae Alun Ffred wedi bod yn aelod penigamp dros bobl Arfon ac wedi gwneud gwaith anhygoel dros Gymru. Mae wedi gosod arweiniad clir a fy nod i yw cael cario'r gwaith ymlaen ar ôl 2016.

“Yn y cyfamser, byddaf yn parhau i weithio mor galed a phosib dros bobl Y Felinheli ar y cyd a'r Aelod Cynulliad, Alun Ffred Jones a'r aelod Seneddol, Hywel Williams. Byddaf hefyd yn cyflawni fy nyletswyddau fel Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd. Mae llawer i'w gyflawni yn lleol dros y dair mlynedd nesaf a bydd y Tîm y Blaid yn parhau i weithio'n ddygn dros bobol yr ardal.”